**Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**
Cyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi eu paratoi yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 12(2) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 am y flwyddyn i 31 Mawrth 2002, ynghyd â Thystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y cyfrifon hynny.

Cyflwynwyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 Atodlen 1, Paragraff 12(4)

# Bwrdd yr Iaith Gymraeg

# Cyfrifon 2001-2002

# Cyfrifon Bwrdd Yr Iaith Gymraeg
# Welsh Language Board Accounts 2001-2002

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagymadrodd | 1 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr | 3 |
| Datganiad ar y System o Reolaeth Fewnol | 4 |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 5 |
| Cyfrif incwm a gwariant | 6 |
| Y fantolen | 7 |
| Datganiad llif arian | 8 |
| Nodiadau ar y cyfrifon | 9 |

# Cyfrifon Bwrdd Yr Iaith Gymraeg
# Welsh Language Board Accounts 2001-2002



## Rhagymadrodd

**Hanes y Bwrdd a gwybodaeth statudol gefndir**

Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 21 Rhagfyr 1993. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi gan y Bwrdd o dan Atodlen 1, Paragraff 12 y Ddeddf ar ffurf sydd wedi'i chyfarwyddo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae copïau o'r cyfarwyddyd hwn ar gael o swyddfeydd y Bwrdd.

Rhoddodd y Ddeddf i'r Bwrdd y swyddogaeth o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg, i alluogi cyrff cyhoeddus i baratoi cynlluniau i weithredu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

I gyflawni hyn y mae gan y Bwrdd y swyddogaethau canlynol:

1. Cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion ynglŷn â'r iaith Gymraeg.

2. Cynghori personau sy'n ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus ar y ffyrdd i weithredu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

3. Cynghori'r rheiny a phersonau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu hymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae adroddiad blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 13(1) Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau'r Bwrdd am y flwyddyn 1 Ebrill 2001 i 31 Mawrth 2002.

**Canlyniadau a chyfeddiant**

Corff cyhoeddus yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr oedd cyfanswm y cymorth grant a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2001 hyd at 31 Mawrth 2002 yn £7,213,000. O'r cyfanswm hwn, yr oedd £168,000 ar gyfer gwariant cyfalaf. Y gwarged am y flwyddyn oedd £7,000; cymerwyd hyn i'r cronfeydd.

**Asedion sefydlog**

Mae nodyn 8 ar y fantolen yn dangos y newidiadau mewn asedion sefydlog yn ystod y cyfnod. Ym marn y Bwrdd nid oes yna wahaniaeth sylweddol rhwng y gwerth yn y llyfrau a gwerth y farchnad ar gyfer asedion sefydlog.

**Datblygiadau yn y dyfodol**

Amlinellir dyheadau'r Bwrdd ar gyfer y dyfodol yn yr adroddiad blynyddol a gyfeiriwyd ato uchod.

Y prif ddatblygiad tua'r dyfodol fydd cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant ar yr Iaith Gymraeg, ac ymateb y Llywodraeth i'w argymhellion.

Er bod yr Adolygiad Pum Mlynedd o Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei gwblhau, mae rhaglen wedi ei chytuno i weithredu argymhellion yr Adolygiad.

**Aelodau'r Bwrdd**

Aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd:

| | |
|---|---|
| Rhodri Williams | Cadeirydd |
| Dr Medwin Hughes | Is-Gadeirydd |
| Yr Athro Colin Baker | |
| Gwyn Bartley | |
| Sue Camper | |
| Bethan Guilfoyle | |
| Gwawr Hughes | |
| Jeffrey Morgan | |
| Dr Arun Midha | |
| Rhiannon Walters | |
| Yr Athro Colin Williams | |

**Darparu gwybodaeth i weithwyr ac ymgynghori â hwy**

Mae'r Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu â'i holl weithwyr a rhoi gwybod iddynt am ddatblygiadau mewnol ac allanol. Bydd y Bwrdd yn parhau i ymgynghori â chynrychiolwyr staff ynglŷn ag unrhyw fater sy'n effeithio ar delerau ac amodau cyflogaeth.

Mae polisi'r Bwrdd ar recriwtio wedi ei seilio ar allu'r ymgeisydd i gyflawni'r swydd. Bydd chwarae teg llawn yn cael ei roi i gais am gyflogaeth oddi wrth yr anabl os oes ganddynt y sgiliau perthnasol a'r gallu i gyflawni'r swydd. Os bydd anabledd yn taro yn ystod cyflogaeth, bydd y Bwrdd yn gwneud pob ymdrech i gynnal cyflogaeth arall ac i sicrhau bod ailhyfforddiant digonol ar gael, ynghyd â chyfleusterau datblygu gyrfa.

**Talu credydwyr**

Mae'r Bwrdd yn talu credydwyr o fewn mis gyda'r ystyriaeth briodol i *Government Accounting* a chanllawiau taliadau y CBI. Yn 2001-2002 talwyd 99% o anfonebau diamheuol o fewn mis.

**Archwilwyr**

Archwiliwyd cyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Atodlen 1, Paragraff 12(4) Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

**John Walter Jones**
**Swyddog Cyfrifo**
**Bwrdd yr Iaith Gymraeg,**
**20 Mai 2002**

## Datganiad o gyfrifoldebau Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Prif Weithredwr

O dan Baragraff 12(1) Atodlen 1 Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg baratoi datganiad o'r cyfrifon mewn perthynas â phob blwyddyn gyfrifo ar ffurf ac ar sylfaen sydd wedi'u cyfarwyddo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys Ei Mawrhydi. Llunnir y cyfrifon ar sail groniadol, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg ar sefyllfa'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod, ac ar ei incwm a'i wariant a'i lif arian am y flwyddyn.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud fel a ganlyn:

- ufuddhau i'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datguddiadau, a gweithredu polisïau cyfrifyddu perthnasol a'u defnyddio'n gyson

- llunio penderfyniadau ac amcangyfrifon mewn modd rhesymol

- datgan a gadwyd at y safonau cyfrifyddu addas, a datguddio ac esbonio unrhyw wyro materol a welir yn y datganiadau ariannol

- llunio datganiadau ariannol ar sail bod yn fusnes gweithredol, onid yw'n amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd y Bwrdd i weithredu

Mae Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pennu Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer y Bwrdd. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros sicrhau rheoleidd-dra a diogelwch yr arian cyhoeddus, a thros gadw cofnodion priodol, wedi eu nodi yn y memorandwm *Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo Cyrff Cyhoeddus a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru* a ryddhawyd gan y Trysorlys.

## Datganiad ar y system reolaeth fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, yr wyf â chyfrifoldeb dros gynnal system ddiogel o reolaeth fewnol sy'n cefnogi llwyddiant polisïau, amcanion a nodau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ond sy'n gwarchod y cronfeydd cyhoeddus a'r asedion yr wyf i yn bersonol â chyfrifoldeb drostynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn G*overnment Accounting*.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i reoli yn hytrach na dileu y risg o fethu cyflawni'r polisïau, amcanion a'r nodau; gall y drefn felly roi sicrwydd rhesymol yn unig, nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd.

Mae'r drefn o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i adnabod y prif risgiau o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Bwrdd, i werthuso natur ac ehangder y risgiau hynny a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol a'n economaidd. Cafodd y broses hwn ei osod yn ystod y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2002 ac yr oedd yn ei lle ar ddyddiad awdurdodi'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'n gytun â chyfarwyddyd y Trysorlys. Bwriadaf fod mewn sefyllfa i gyhoeddi datganiad llawn am y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2003.

Fel Swyddog Cyfrifo, yr wyf hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reoli mewnol. Mae'r Bwrdd wedi:

- cynnal cyfarfodydd llawn o'r Bwrdd chwech gwaith y flwyddyn i gytuno cynlluniau a chyfeiriad strategol y Bwrdd (Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau a benodwyd gan Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg)
- sefydlu Tîm Rheoli sydd yn cwrdd bob pythefnos i ystyried rheolaeth fewnol a materion gweinyddol
- sefydlu Panel Polisi staff sydd yn cwrdd yn gyson i ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol y Bwrdd
- penodi aelod hŷn o'r staff fel Rheolwr Risg
- derbyn adroddiad oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd ynglŷn â rheolaeth fewnol
- derbyn adroddiadau rheolaidd gan archwilwyr mewnol yn unol â safonau sy'n cael eu pennu yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sydd yn cynnwys barn annibynnol Pennaeth ein Archwilwyr Mewnol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system y Bwrdd o reolaeth fewnol yn ogystal ag argymhellion i wella
- trefnu gweithdai rheoli risg i adnabod amcanion a risgiau'r Bwrdd – ac i bennu strategaeth reoli ar gyfer pob risg
- darparu dogfen bolisi rheoli risg, a anfonwyd i bob aelod o staff, sydd yn gosod allan agwedd y Bwrdd tuag at y risg o gyrraedd ei amcanion
- clustnodi cyfrifoldeb am y weithred ynghlwm â phob risg , yn ogystal â llinellau terfyn ar gyfer gweithredu
- rhoi hyfforddiant rheoli risg i holl staff y Bwrdd ac i Gadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd
- sicrhau fod pob aelod hŷn o'r Bwrdd yn anfon adroddiad i'r Prif Weithredwr, sy'n cadarnhau eu bod wedi cymryd y camau priodol i reoli y risgiau y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt
- cytuno i adolygu'r ddogfen rheoli risg yn gyson

Ychwanegir at fy arolwg o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a chan y rheolwyr gweithredol o fewn y Bwrdd sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a gan sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheolaeth ac mewn adroddiadau eraill.

**John Walter Jones,**
**Swyddog Cyfrifo,**
**Bwrdd yr Iaith Gymraeg,      Mai 2002**

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 6 i 16 yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 12(4) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 9 a 10.

**Priod gyfrifoldebau'r Bwrdd, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd**

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 3, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac â'r cyfarwyddiadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ôl gofynion y Ddeddf ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae Bwrdd'r a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair. Pennir fy nghyfrifoldebau, fel archwilydd annibynnol, yn ôl statud, ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Yr wyf yn rhoi fy marn i chi a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a gawsant eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac â'r cyfarwyddiadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ôl gofynion y Ddeddf, ac a gafodd y gwariant a'r incwm ymhob ystyr berthnasol eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Yr wyf hefyd yn cyflwyno adroddiad onid yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, oni chadwodd y Bwrdd gofnodion cyfrifo cywir, neu oni chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Yr wyf yn arolygu a yw'r datganiad ar dudalen 4 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Bwrdd ag arweiniad y Trysorlys sef *Corporate governance: statement on the system of internal control*. Byddaf yn cyflwyno adroddiad onid yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

**Sail fy marn**

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Gyfunol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth, ar sail prawf, sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Bwrdd a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac asesiad a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Bwrdd, a gawsant eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gam-ddweud perthnasol, a achoswyd naill ai o ganlyniad i wall, twyll neu drwy afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ymhob ystyr berthnasol, wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn yr wyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol hefyd.

**Barn**

Yn fy marn i:

- rhydd y datganiadau ariannol ddarlun gwir a theg o gyflwr materion Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2002 ac o'r gwarged, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn ôl gofynion y Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- ymhob ystyr berthnasol defnyddiwyd y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA
23 Mai 2002

# Cyfrif incwm a gwariant am y flwyddyn i 31 Mawrth 2002

| | | **2001/02** | | 2000/01 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Incwm gros** | | | | | |
| Cymorth Grant | 2 | **7,045** | | 6,320 | |
| Grant y Comisiwn Ewropeaidd | | **20** | | 29 | |
| Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant | | **83** | | 36 | |
| Rhyddhau cronfa grant y llywodraeth | 13 | **49** | | 53 | |
| Incwm gweithredol | | **21** | | 24 | |
| Incwm arall | 2 | **190** | | 36 | |
| | | | **7,408** | | 6,498 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Grantiau | 4 | **5,211** | | 4,685 | |
| Gwariant rhaglenni eraill | 7 | **721** | | 515 | |
| Cyflogau | 5 | **1,015** | | 913 | |
| Gweinyddu | 6 | **407** | | 337 | |
| Dibrisiant | 8 | **47** | | 53 | |
| Llog tybiedig ar gyfalaf | 1(i) | **11** | | 9 | |
| | | | **7,412** | | 6,512 |
| **(Diffyg) ar weithgareddau gweithredol** | | | **(4)** | | (14) |
| Llog a dderbyniwyd | 3 | | **20** | | 6 |
| Swm sy'n daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | | | **(20)** | | (6) |
| Addasiad am log tybiedig ar gyfalaf | 1(i) | | **11** | | 9 |
| **Gwarged / (Diffyg) a gadwyd am y flwyddyn** | | | **7** | | (5) |
| | | | | | |
| **Datganiad o'r symudiad yn y gronfa gyffredinol** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol ar 1 Ebrill 2001 | | | **32** | | 37 |
| (Diffyg) / gwarged a gadwyd am y flwyddyn | | | **7** | | (5) |
| | | | **39** | | 32 |

Mae holl weithgareddau'r Bwrdd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn parhau.
Nid oedd unrhyw enillion a cholledion cydnabyddedig arall yn deillio dros y cyfnod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 16 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Mantolen ar 31 Mawrth 2002

| | | **2002** | | 2001 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Asedion sefydlog** | | | | | |
| Asedion cyffyrddadwy | 8 | | **215** | | 96 |
| **Asedion cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 9 | **6** | | 6 | |
| Dyledwyr | 10 | **143** | | 115 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | **123** | | 95 | |
| | | **272** | | 216 | |
| **Credydwyr** | | | | | |
| Symiau a ddaw yn ddyledus o fewn blwyddyn | 11 | **(229)** | | (181) | |
| **Asedion cyfredol net** | | | **43** | | 35 |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a phridiannau** | 12 | | **(4)** | | (3) |
| **Cyfanswm asedion llai cyfanswm rhwymedigaethau** | | | **254** | | 128 |
| **Ariannwyd gan:** | | | | | |
| **Gyfalaf a chronfeydd** | | | | | |
| Cronfa grant y llywodraeth | 13 | **215** | | 96 | |
| Cronfa gyffredinol | | **39** | | 32 | |
| Cronfeydd y llywodraeth | | | **254** | | 128 |
| | | | **254** | | 128 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 16 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**John Walter Jones,**
**Swyddog Cyfrifo,**
**Bwrdd yr Iaith Gymraeg**
**20 Mai 2002**

# Cyfrifon Bwrdd Yr Iaith Gymraeg
# Welsh Language Board Accounts 2001-2002

## Datganiad o'r llif arian
## am y flwyddyn i 31 Mawrth 2002

| | Nodiadau | **2001/02** | 2000/01 |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | £000 |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol** | 16(a) | **10** | 3 |
| **Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **20** | 6 |
| Llog a ildiwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | | **(20)** | (15) |
| **Gwariant cyfalaf** | | | |
| Derbyniadau am werthiant asedion sefydlog | | **4** | - |
| Taliad i gaffael asedion sefydlog cyffyrddadwy | | **(154)** | (19) |
| **(All-lif) arian net cyn cyllido** | | **(140)** | (25) |
| **Cyllido** | | | |
| Cymorth grant - cyfalaf | 2 | **168** | 20 |
| **Cynnydd / (Lleihad) mewn arian** | 16(b) | **28** | (5) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 16 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y cyfrifon
# am y flwyddyn i 31 Mawrth 2001

**1 Polisïau cyfrifo**

**(1.1) Confensiynau cyfrifo**

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Maent wedi cael eu paratoi yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyllido a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datguddio Deddf Cwmnïau 1985 a'r safonau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, cyhyd ag y mae'r gofynion hynny yn berthnasol i'r Bwrdd.

**(1.2) Cyllid**

Mae'r Bwrdd yn cael cymorth grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr amod fod y Bwrdd yn bodloni'r gofynion sydd wedi eu gosod allan yn y Memorandwm Ariannol ac unrhyw amodau eraill y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu pennu o bryd i'w gilydd. Gall y Bwrdd dderbyn incwm o ffynonellau eraill sy'n unol â *Treasury's Fees and Charges Guide* pan na fydd hynny'n ymyrryd â'i brif swyddogaethau ac yn gyson â'i Gynllun Corfforaethol a pholisi'r Llywodraeth.

**(1.3) Grantiau llywodraeth**

(i) Ariennir y Bwrdd yn bennaf trwy grant o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
(ii) Mae grantiau at ddibenion gweithredu wedi eu credydu fel incwm yn y cyfnod.
(iii) Mae'r grantiau a gafwyd ar gyfer gwariant cyfalaf wedi eu credydu i gronfa grant y llywodraeth a throsglwyddir symiau dibrisiant perthnasol i'r cyfrif incwm a gwariant wrth i'r asedion cyfalaf gael eu defnyddio.

**(1.4) Asedion cyffyrddadwy a dibrisiant**

Darperir dibrisiant ar bob ased sefydlog cyffyrddadwy ar sail llinell syth dros fywyd defnyddiol disgwyliedig yr asedion fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Gwelliannau ac addasiadau swyddfa | - | dros 90 mis |
| Celfi swyddfa | - | dros 90 mis |
| Offer swyddfa | - | dros 60 mis |
| Offer cyfrifiadurol | - | dros 36 mis |

**(1.5) Stoc**

Mae stoc nwyddau'r Bwrdd wedi eu cynnwys ar eu cost wreiddiol, neu eu gwerth net pe baent yn cael eu gwerthu, pa un bynnag yw'r lleiaf. Nid oes yna wahaniaeth materol rhwng gwerth hanesyddol a chost ailosod stoc.

**(1.6) Treth**

Nid yw'r Bwrdd wedi cofrestru ar gyfer Treth Ar Werth. Mae T.A.W. sydd heb ei hadennill wedi ei godi i'r cyfrif incwm a gwariant neu wedi ei gynnwys lle bo'n briodol yn yr ychwanegiadau i asedion cyffyrddadwy.

**(1.7) Pensiynau**

Fe delir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am bensiynau a buddiannau tebyg i bersonau a gyflogir gan y Bwrdd ac am gostau gweinyddol sydd i'w priodoli i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni.

**(1.8) Darpariaeth ailaddurno**

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i ailaddurno'r swyddfeydd bob 7 mlynedd. Gan bod hyn yn amod cytundeb mae'r Bwrdd wedi sefydlu darpariaeth ar gyfer costau ailaddurno yn y dyfodol yn unol â *Financial Reporting Standard 12.*

**(1.9) Cost cyfalaf**

Cynhwysir cost cyfalaf tybiedig, sy'n adlewyrchu'r gost gyfalaf a ddefnyddiwyd yn y costau gweithredu, gan gyfrifo 6% o gyfartaledd cyfalaf.

**(1.10) Grantiau dyledus**

Caiff grantiau i'w codi i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn y ystod cyfnod pan fydd y gweithgaredd sydd yn creu hawl i'w dderbyn yn cael ei gynnal. Mae gan y Bwrdd yr hawl i adennill y cyfan neu ran o'r grant os yw'r sawl sy'n cael grant yn torri unrhyw un o'r amodau sydd yn rhan o'r cynnig grant. Credydir unrhyw ad-daliadau i'r cyfrif wrth eu derbyn.

**(1.11) Ailbrisio asedion sefydlog**

Prisiwyd holl asedion sefydlog gan y Bwrdd ar gost hanesyddol gan nad yw addasiadau ailbrisio, ym marn y Bwrdd, yn sylweddol.

**2 Cymorth grant o Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

| | Cyfredol £000 | Cyfalaf £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **2001-2002** | **7,045** | **168** | **7,213** |
| 2000-2001 | 6,320 | 20 | 6,340 |

Gwnaethpwyd taliad arbennig yn 2001-2002 o £150,000 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Bwrdd ar ran Urdd Gobaith Cymru, cafodd hwn ei gynnwys fel incwm arall.

### 3 Swm i'w ildio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r swm sy'n daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel a ganlyn:

| | **2001-2002** | 2000-2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Llog derbyniadwy | **20** | 6 |

### 4 Grantiau

Mae'r grantiau canlynol yn daladwy o dan Adran 3(3) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993:

| | **2001-2002** | 2000-2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Grantiau i hyrwyddo addysg Gymraeg | **2,183** | 2,117 |
| Grantiau i hyrwyddo'r iaith yn gyffredinol | **3,018** | 2,556 |
| Cynllun grantiau bach | **10** | 12 |
| | **5,211** | 4,685 |

Mae rhestr lawn o'r holl grantiau a dalwyd neu sy'n ddyledus ar gael o swyddfeydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

### 5 Costau staff ac aelodau

| (a) | | **2001-2002** | | | 2000-2001 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff** | **Aelodau** | **Cyfanswm** | Staff | Aelodau | Cyfanswm |
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau gros | **755** | **89** | **844** | 673 | 86 | 759 |
| Yswiriant gwladol | **57** | **4** | **61** | 48 | 3 | 51 |
| Cyfranddaliadau pensiwn | **105** | **5** | **110** | 93 | 10 | 103 |
| | **917** | **98** | **1,015** | 814 | 99 | 913 |
| (b) Niferoedd cyfartalog | **32** | **11** | **43** | 31 | 11 | 42 |

Cyflogir staff o fewn y Bwrdd fel a ganlyn:

| | **2001-2002** | 2000-2001 |
|---|---|---|
| Tîm y Prif Weithredwr | **14** | 14 |
| Tîm Cynllunio Ieithyddol | **12** | 11 |
| Tîm Cynlluniau Iaith | **6** | 6 |
| | **32** | 31 |

Mae telerau ac amodau'r staff a gyflogir yn gyfatebol â rhai Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penodwyd aelodau'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2000 gan Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg.

(c) Rhestrir hawliau cyflogau a phensiwn y Cadeirydd a staff mwyaf hŷn y Bwrdd, sydd ag awdurdod a chyfrifoldebau am gyfeirio a rheoli prif weithgareddau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

| Enw a theitl | Oed | Cyflog (a ddiffinir isod) | Gwir gynnydd mewn pensiwn oed 60 | Cyfanswm croniadol y pensiwn ar oed 60 ar 31 Mawrth 2002 |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| Rhodri Williams, Cadeirydd | 45 | 25-30 | 0-2.5 | 0-5 |
| John Walter Jones, Prif Weithredwr | 56 | 60-65 | 0-2.5 | 5-10 |
| Rhys Dafis, Arweinydd Tim Cynlluniau Iaith | | Ni roddwyd caniatâd i ddatgelu | | |
| Meirion Prys Jones, Arweinydd Tim Cynllunio Ieithyddol | | Ni roddwyd caniatâd i ddatgelu | | |
| Enid Lewis, Uwch Swyddog Cyllid | | Ni roddwyd caniatâd i ddatgelu | | |
| Gareth Jones, Uwch Swyddog Gweinyddol | | Ni roddwyd caniatâd i ddatgelu | | |

Mae cyflog y Prif Weithredwr yn cynnwys cyflog gros o £58,992 (2000-2001: £57,274) a bonws amhensiwnadwy o £3,723 (2000-2001: £3,674). Cyflog gros yn unig y mae swyddogion hŷn y Bwrdd yn ei dderbyn.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r Prif Weithredwr ar gytundeb penodol am y cyfnod o 21 Rhagfyr 1998 hyd at 20 Rhagfyr 2003. Mae'r Cadeirydd ar gytundeb i weithio 2 ddiwrnod yr wythnos, gydag aelodau eraill y Bwrdd ar gytundeb i weithio 2 ddiwrnod y mis am gyflog amhensiwnadwy o £6,286 y flwyddyn (2000-2001: £6,103) Mae hyn yn cyfateb i raddfa 5 yn y Gwasanaeth Sifil yn ôl nifer y diwrnodau.

Ni dderbyniodd aelodau'r Bwrdd na swyddogion hŷn y Bwrdd dâl ar wahân i'r hyn a nodir uchod nac ychwaith fuddiannau mewn da. Nid yw'r Bwrdd yn gweithredu cynllun ceir.

(d) Pensiynau

Darparir pensiwn drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) ac mae amodau Deddfau Budd-dal Ymddeol 1965 a 1972 a newidiadau diweddarach iddynt yn berthnasol i'r budd-daliadau hyn. Mae hwn yn gynllun statudol sydd yn darparu buddiannau ar sail "cyflog terfynol" ar oed ymddeol arferol o 60. Mae buddiannau yn cronni ar raddfa o 1/80 o gyflog bensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfrandaliad cywerth 3 blynedd o bensiwn wrth ymddeol. Mae aelodau yn cyfrannu 1.5% o gyflog bensiynadwy. Cynyddir pensiynau yn unol â'r Mynegrif Prisiau Manwerth. Ar farwolaeth, telir pensiynau i'r priod sydd ar ôl ar raddfa o hanner tâl pensiwn yr aelod. Ar farwolaeth tra'n gwasanaethu mae'r cynllun yn talu cyfrandaliad cywerth â dwywaith y cyflog pensiynadwy yn ogystal â chodiad gwasanaeth wrth gyfrifo pensiwn y priod. Mae'r codiad yn ddibynnol ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn amgylchiadau o salwch difrifol. Yn yr achos hwn, telir pensiynau yn syth heb leihad actiwaraidd a gyda'r codiad gwasanaeth fel mewn achos pensiynau gwraig weddw neu ŵr gweddw.

Mae PCSPS yn gynllun buddiannau diffiniedig a rennir gan nifer o gyflogwyr fel canlyniad nid oes modd adnabod cyfran y cyflogwr o'r asedion a rhwymedigaethau sylfaenol. Ceir gwybodaeth am fodolaeth gwarged neu ddiffyg y cynllun a'r goblygiadau ar y gweithiwr ar gael yn y datganiad cynllun pensiwn blynyddol.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2002 talwyd cyfraniadau o £110,000 (2000-2001: £103,000) ar ran y staff a'r Cadeirydd i'r Tâl-feistr Cyffredinol, yn unol â'r cyfraddau a bennir o bryd i'w gilydd gan Actiwari'r Llywodraeth ac a hysbysir gan y Trysorlys. Ar gyfer y flwyddyn o dan sylw yr oedd hynny'n amrywio o 12% i 18.5% o'r cyflog gros (2000-2001: 12% i 18.5%).

(e) Cofrestr rhoddion

Mae gan y Bwrdd gofrestr rhoddion. Nid oes unrhyw eitem a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei hystyried o bwys materol i'w chynnwys yn y datganiadau hyn.

## 6 Gweinyddu

Mae costau gweinyddu yn cynnwys:

| | **2001-2002** | 2000-2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gwasanaethau archwilwyr (tâl yr archwiliad allanol) | **10** | 8 |
| Gwasanaethau archwilwyr (gwaith archwilio allanol arall) | **1** | 1 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | **55** | 40 |

## 7 Gwariant rhaglenni eraill

Mae gwariant uniongyrchol yn gysylltiedig â nifer o'r prosiectau a ymgymerwyd â hwy gan dimau'r Bwrdd, sef, Prif Weithredwr, Cynlluniau Iaith a Chynllunio Ieithyddol. Mae'r prosiectau wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredol am y flwyddyn sy'n amodol i gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ceir manylion prosiectau a ymgymerwyd â hwy yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd.

## 8 Asedion sefydlog cyffyrddadwy

| | Gwella ac addasu'r swyddfa | Celfi swyddfa | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | |
| 1 Ebrill 2001 | 107 | 85 | 182 | 374 |
| Ychwanegiadau | 3 | 18 | 147 | 168 |
| Gwerthiannau | -- | (12) | (39) | (51) |
| **31 Mawrth 2002** | **110** | **91** | **290** | **491** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| 1 Ebrill 2001 | 81 | 66 | 131 | 278 |
| Cost am y flwyddyn | 7 | 12 | 28 | 47 |
| Gwerthiannau | -- | (12) | (37) | (49) |
| **31 Mawrth 2002** | **88** | **66** | **122** | **276** |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | | | | |
| **31 Mawrth 2002** | **22** | **25** | **168** | **215** |
| 1 Ebrill 2001 | 26 | 19 | 51 | 96 |

Nid oedd yna unrhyw ymrwymiadau cyfalaf amodol ar 31 Mawrth 2002.

## 9 Stoc

| | 2001-2002 | 2000-2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Stoc nwyddau i'w hailwerthu | **6** | 6 |

## 10 Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | **2001-2002** | 2000-2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Blaendal gyda'r asiantaeth gyflogau | **72** | 72 |
| Grant derbynadwy | **11** | 8 |
| Dyledwyr eraill | **6** | 6 |
| Rhagdaliadau eraill | **54** | 29 |
| | **143** | 115 |

## 11 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | **2001-2002** | 2000-2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Credydwyr gweithredol | **109** | 106 |
| Croniadau | **112** | 75 |
| Derbyniadau ymlaen llaw | **8** | - |
| | **229** | 181 |

## 12 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a phridiannau

| | **2001-2002** | 2000-2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Darpariaeth ailaddurno ar 1 Ebrill | **3** | 2 |
| Swm a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | **-** | - |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth ailaddurno | **1** | 1 |
| Darpariaeth ar 31 Mawrth | **4** | 3 |

## 13 Cronfa grant y llywodraeth

| | **2001-2002** | 2000-2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| 1 Ebrill | **96** | 129 |
| Cymorth grant am y cyfnod – cyfalaf (gweler nodyn 2) | **168** | 20 |
| Llai: swm a ryddhawyd i'r cyfrif incwm a gwariant | **(49)** | (53) |
| 31 Mawrth | **215** | 96 |

## 14 Cymodi'r symudiad yng nghronfeydd y llywodraeth

| | **2001-2002** | 2000-2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill | **128** | 166 |
| Gwarged / (Diffyg) a gadwyd am y flwyddyn | **7** | (5) |
| Symudiadau yn y cyfrif grant gohiriedig | **119** | (33) |
| Cronfeydd ar 31 Mawrth | **254** | 128 |

## 15 Ymrwymiadau o dan prydlesi gweithredol

Ar 31 Mawrth 2002 yr oedd gan y Bwrdd ymrwymiadau i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf yn ymwneud â phrydlesi gweithredol yn dod i ben:

| | **2001-2002** | | 2000-2001 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Tir ac adeiladau** | **Eraill** | Tir ac adeiladau | Eraill |
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| O fewn blwyddyn | **-** | **-** | - | - |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | **-** | **9** | - | 9 |
| Ar ôl pum mlynedd | **73** | **-** | 73 | - |
| | **73** | **9** | 73 | 9 |

Mae'r symiau uchod yn cynrychioli'r tâl blynyddol ar gyfer pob prydles. Adolygwyd rhent Swyddfeydd y Bwrdd yn Siambrau'r Farchnad, Heol Eglwys Fair, Caerdydd ar 21 Rhagfyr 1998. Nid yw'r canlyniad yn derfynol hyd yma. Mae'r prydlesi eraill ar gyfer offer swyddfa.

**16 Nodiadau ar y datganiad llif arian**

(a) Cysoni'r gwarged gweithredol i'r llif arian net o weithgareddau gweithredol

| | **2001-2002** | 2000-2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Diffyg ar weithgareddau gweithredol | **(4)** | (14) |
| Dibrisiant | **47** | 53 |
| Elw ar werthiant asedion | **(2)** | - |
| Llog tybiedig a lwythwyd | **11** | 9 |
| Cynnydd mewn darpariaeth atgyweirio | **1** | 1 |
| Rhyddhau cronfa grant y llywodraeth | **(49)** | (53) |
| (Cynnydd) mewn stoc | **-** | (2) |
| (Cynnydd) / lleihad mewn dyledwyr | **(28)** | 15 |
| Cynnydd / lleihad mewn credydwyr | **34** | (6) |
| Mewnlifiad arian net o weithgareddau gweithredol | **10** | 3 |

(b) Dadansoddiad o'r newidiadau mewn arian net yn ystod y flwyddyn

| | **2001-2002** | 2000-2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Arian net ar 1 Ebrill | **95** | 100 |
| Mewnlif / (all-lif) arian net | **28** | (5) |
| Arian net ar 31 Mawrth | **123** | 95 |

(c) Dadansoddiad o'r newidiadau cyllido yn ystod y flwyddyn

Gweler nodyn 13 am y symudiad yng nghronfa grant y llywodraeth.

**17 Rhwymedigaethau amodol**

Nid oedd yna unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2002.

**18 Trafodion gyda phartion cysylltiedig**

Ystyrir Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cafodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg amryw drafodion arwyddocaol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant sydd yn un o'i gyrff cyhoeddus noddedig.

Bu'r Bwrdd â rhan mewn trafodion lle datganodd yr aelodau canlynol ddiddordeb a ystyrir yn arwyddocaol:

Talwyd grant o £668,000 i Fudiad Ysgolion Meithrin. Roedd Rhiannon Walters yn gyfarwyddwr Cwmni Mabon & Mabli hyd 2 Mai 2001. Mae Cwmni Mabon & Mabli yn is-gwmni o Fudiad Ysgolion Meithrin.

Talwyd grant o £92,828 i Fentrau Iaith Myrddin. Mae Medwin Hughes yn un o'r cyfarwyddwyr. Dyrannodd Mentrau Iaith Myrddin £5,000 i Fenter Bro Dinefwr lle'r oedd Rhiannon Walters yn is-gadeirydd hyd 11 Medi 2001.